

Y Rhai sy'n Gofalu

Darllen: Actau 20:28

Wrth edrych yn ôl ar bron i ddeugain mlynedd yn y Weinidogaeth, mae'n deg gofyn beth yw'r uchelfannau? Heb betruso dim, yr elfen a roddodd fwyaf o foddhad i mi oedd ymweld â'r praid, boed ar eu haelwydydd eu hunain, mewn cartref gofal, cartref nyrsio neu mewn ysbyty. Rwy'n cofio cyfaddef hyn wrth rai o'm ffrindiau, ac roeddent wedi synnu fy nghlywed yn dweud y fath beth, gan ddisgwyl, medden nhw, y byddai pregethu ac arwain addoliad wedi bod yn flaenoriaeth. Na, ydi'r ateb syml. Onid dyma wendid mawr y capeli a'r eglwysi yng Nghymru heddiw? Prin iawn y clywn ni'r dyddiau hyn am fugeilio'r gynulleidfa. Mae ein holl ynni yn mynd i gynnal oedfa, yn hytrach na bod y gynulleidfa ei hun yn paratoi addoliad. Nid agenda'r gweinidog sy'n bwysig, ond agenda'r gynulleidfa.

Beth, felly, sy'n digwydd pan fo'r gweinidog yn bugeilio? Yn y lle cyntaf, mae perthynas ddeublyg yn digwydd. Mae'r gweinidog yn dod i adnabod ei bobl. Nid criw o bobl yn eistedd yn eu seddau, yn dweud dim ac yn gwneud dim heblaw codi i ganu a chyd weddio Gweddi'r Arglwydd ydyn nhw, ond pobl sy'n byw eu bywydau bob dydd ac yn wynebu pob math o dreialon. Ac nid rhywun yn sefyll yn y pulpud ydi'r gweinidog, ond bod dynol sydd fel ei braidd yn wynebu heriau a threialon bywyd. Felly, mae'r ymweld yn fan cychwyn i greu perthynas ac adnabyddiaeth ac yn gyfle i fod yn hollol naturiol ac agored yng nghwmni'n gilydd. Mae'r gweinidog yn un y medrwech siarad ag o ac ymddiried ynddo; mae'n un y gellwch drin a thrafod yn agored efo fo; ac yn un y medrwech weld fod ganddo synnwyr digrifwch a hiwmor. Fel y mae gŵr a gwraig yn raddol yn dod i adnabod ei gilydd, felly hefyd y dylai'r praid a'r bugail glosio'n nes a dod i barchu ac ymddiried yn ei gilydd.

Wrth gwrs, mae mwy i fugeilio na mân siarad. Mae gofal bugeiliol. Mae'r bugail yn gofalu am ei braidd. Nid dod ar ei ben ei hun y mae'r gweinidog, ond dod yn enw'r eglwys ac yn enw Iesu. Mae ei bresenoldeb yn tystio i'r

ffaith bod aelodau'r eglwys yn gofalu am yr unigolyn, a bod gan Iesu ei hun feddwl ohono. Y man cychwyn bob amser yw'r hwn yr ymwelir ag ef, a gellir agor y drafodaeth gyda chwestiynau penagored megis, 'Sut mae pethau heddiw?' neu 'Sut hwyl sydd arnoch heddiw?' er mwyn i'r unigolyn gael cyfle i drin a thrafod, neu godi ambell gwestiwn. Mae'n bur debyg y bydd cyfnodau dwys a distaw, ynghyd â chyfnodau eraill o lawenydd mawr. Yr hyn sy'n bwysig yw bod yr unigolyn yn llywio'r drafodaeth, a'r ymwelydd yn gwrando ac yn rhoi ei bwt i mewn o dro i dro. Mor bwysig ydi dysgu gwrando, ond nid yw hynny bob amser yn hawdd. Y ffordd hawdd yn aml yw prysuro i roi cyngor neu i ddangos y ffordd. Ond mae'n rhaid gwrando'n astud, gan ganolbwyntio ar yr hyn a ddywedir ac ymateb yn gynnil mewn ffordd a fydd yn helpu'r unigolyn i agor ei galon. Y gamp yw peidio â chynghori a dweud, 'Fel hyn y buaswn i'n gwneud' neu 'Fel hyn wnes i', ond yn hytrach helpu'r unigolyn ei hunan i wneud pob ymdrech i ganfod y ffordd ymlaen.

Myfyrdod pellach:

Pa mor bwysig ydi gofal bugeiliol yn eich tyb chi?

Oes yna dimau ymweld a gofalu yn eich eglwys chi? Beth yw eu rôl?